Chwarae teg

Thema: Masnach Deg

Gwlad dan sylw: Ghana

Nod: meddwl am y straeon o wahanol rannau o'r byd sy'n cael eu cynrychioli gan y nwyddau ym magiau siopa pobl Cymru; edrych ar y drefn fasnach fyd-eang a'r ffordd yr ydym ni fel cwsmeriaid yn rhan ohono; deall bod prynu nwyddau Masnach Deg yn gam cadarnhaol tuag at siopa'n gyfrifol.

Adnoddau/paratoadau:

- dwy fag siopa (rhai y gellir eu defnyddio eto wrth gwrs!) – un yn llawn o gynnyrch lleol (tatws, moron, afalau ac ati) a'r llall yn llawn o bethau sydd wedi eu mewnforio (bananas, coffi, siocled ac ati)
- y cyflwyniad PowerPoint *Chwarae teg* sydd ar gael o www.christianaid.org.uk/learn

Cyflwyniad

1. Dangoswch eich dwy fag siopa i'r disgyblion. Gofynnwch: *beth yw'r gwahaniaeth rhwng cynnwys y ddwy fag?* Rhowch gyfle i'r plant i ateb, yna esboniwch: *bod un bag yn cynnwys cynnyrch a dyfwyd gan ffermwyr Cymru/ Y Deyrnas Unedig/ Iwerddon a bod y cynnyrch yn y bag arall wedi eu tyfu gan ffermwyr dramor.*

Gofynnwch i'r plant beth yw eu hoff eitem yn y bagiau (tebyg iawn mae siocled fydd fwyaf poblogaidd, ond mae'n gyfle i longyfarch y rhai sy'n hoffi bwydydd iach fel ffrwythau, neu yfwyr te soffistigedig!)

2. Esboniwch fod y siocled rydym ni'n ei fwyta yn dod o ffa coco. *Tyfir y rhan fwyaf o ffa coco yn Affrica, yn enwedig yn Y Traeth Ifori a Ghana. Mae'r plisg coco yn tyfu ar goed. Maen nhw'n dechrau yn wyrdd ac yna'n troi'n felyn ar ôl aeddfedu, tebyg i fananas.*

Pan eu bod yn aeddfed, mae'r ffermwyr yn eu casglu, eu hagor ac yn tynnu allan yr hadau gwyn sydd y tu mewn (rhain yw'r ffa coco). Dydyn nhw ddim yn edrych yn debyg i siocled a dydyn nhw ddim yn flasus iawn chwaith. Mae'n rhaid iddynt eplesu. Felly mae'r ffermwr yn eu lapio nhw mewn dail llyriad (plantain) mawr am tua saith niwrnod nes iddynt droi'n frown a dechrau arogli fel siocled, Mmm, dychmygwch hynna! Wedyn maen nhw'n cael eu gosod ar fatiau bambŵ am wythnos arall i sychu yn yr haul.

3. Gofynnwch i'r plant faint maent yn gwario ar siocled bob wythnos. *Wyddoch chi ein bod yn y DU yn gwario ar gyfartaledd £72 y person ar siocled bob blwyddyn!*[1]

Felly, os ydym ni'n gwario'r holl arian hyn ar siocled, ydych chi'n credu bod y ffermwyr coco yn dlawd neu'n gyfoethog?

Rhowch gyfle iddynt ateb, yna eglurwch: *er yn gweithio'n galed, mae'r rhan fwyaf o'r ffermwyr yn dlawd am nad ydynt yn cael pris teg am eu coco. Mae'r rhan fwyaf o'r arian yr ydym ni'n ei wario ar siocled ddim yn mynd i'r ffermwr, ond i'r siop sy'n ei werthu i ni, y ffatri sy'n gwneud y bar, a'r bobl sy'n prynu'r coco oddi wrth y ffermwyr. Ar gyfartaledd, mae teuluoedd y wlad hon yn gwario mwy ar brynu siocled nag y mae ffermwr coco yn ei ennill mewn blwyddyn gyfan.*

4. *Dangoswch sleid 2 yn y cyflwyniad PowerPoint.* *Penderfynodd rhai o ffermwyr coco Ghana wneud rhywbeth ynglŷn â hyn, felly daethant at ei gilydd a ffurfio menter gydweithredol (sy'n golygu eu bod yn gweithio gyda'i gilydd, co-operative) Yr enw a rhoddwyd arno yw Kuapa Kokoo (sy'n golygu Grŵp Ffermwyr Coco Da) Maent yn gweithio gyda'i gilydd i dyfu a gwerthu eu coco am bris teg. Mae unrhyw arian ychwanegol a enillir yn cael ei wario ar brosiectau sy'n helpu pawb yn y gymuned, fel ysgolion neu sicrhau bod y cyflenwad dŵr yn lân ac yn ffres. Mae Cymorth Cristnogol yn elusen sydd wedi helpu'r ffermwyr i sefydlu cwmni o'r enw Divine Chocolate Ltd. Mae'r.*
cwmni yn gwneud bariau siocled Divine a Dubble o ffa coco Masnach Deg.

5. Dangoswch sleid 3 yn y cyflwyniad PowerPoint. *Dyma Raphael Ayapong. Mae'n 14 oed ac yn byw yn Akumadam yn Ghana. Mae ei dad yn gweithio i Kuapa Kokoo. Dywed Raphael fod 'prynu siocled Masnach Deg yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau ffermwyr coco fel fy nhad'. Gyda'r elw o werthu coco, mae'r fenter gydweithredol wedi darparu twll turio newydd i roi dŵr ffres i'r gymuned. Fel y dywed Raphael, 'rydych chi yn cael siocled blasus ac rydyn ni'n cael chwarae teg. Beth fedrai fod yn decach na hynny?'*

cymorth cristnogol

Gellir defnyddio'r deunydd hwn ar gyfer amcanion addysgiadol, ond i ddosrannu'n ehangach, neu er elw masnachol, rhaid cael caniatâd gan Cymorth Cristnogol. Ysgrifennwyd gan David Thomas ar gyfer Cymorth Cristnogol, Ionawr 2009.

6. Dangoswch sleid 4 yn y cyflwyniad PowerPoint. *Mae'r symbol yma'n golygu bod y ffermwr a dyfodd y cnwd yn cael pris teg amdano. Mae'r bariau siocled Divine a Dubble yn cario'r symbol MASNACHDEG ar y papur sy'n eu lapio.*

Mae Cymorth Cristnogol yn cefnogi masnach deg am ei fod yn ffordd i ffermwyr mewn gwledydd tlawd fasnachu eu ffordd allan o dlodi a chael pris teg am y bwyd y maent yn ei werthu. Mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gofyn i lywodraethau ledled y byd i newid y rheolau sydd yn atal rhai ffermwyr rhag cael pris teg am y cnydau y maent yn eu tyfu.

7. Dangoswch sleid 5 yn y cyflwyniad PowerPoint. *Fe allwch chi helpu hefyd trwy chwilio am y symbol masnach deg a gofyn i bwy bynnag sy'n siopa i brynu pethau sydd â'r symbol hwn arnynt. Fe ellir prynu bananas, mangos, coffi, te, sudd oren, afalau pîn, cnau, resins, siwgr, bisgedi, dillad ac wrth gwrs siocled wedi eu masnachu'n deg!*

Gweddi

Annwyl Dduw

Diolch i ti am bethau blasus i'w bwyta. Helpa ni i gofio'r ffermwyr sy'n tyfu ein bwyd, yn enwedig y rhai sy'n dlawd. Diolch i ti am Fasnach Deg. Helpa ni i ddewis yn ddoeth er mwyn i eraill gael bywyd gwell.
Amen.

Myfyrdod

Wrth i ni fwynhau pethau blasus fel siocled a ffrwythau, byddwn yn cofio bod popeth yr ydym yn bwyta wedi ei wneud neu ei dyfu gan rywun mewn lle arall. Byddwn ni'n ceisio darganfod ble mae'r 'lle arall' yma a diolch i'r 'rhywun' a'i tyfodd. Gyda'n gilydd fe barchwn ein cyfrifoldeb am y bobl ledled y byd sydd wedi eu cysylltu â ni trwy'r hyn a brynwn, a cheisiwn brynu nwyddau sydd wedi eu masnachu'n deg lle bynnag a phryd bynnag y medrwn er mwyn i bawb gael bargen decach.

Gweithredu

- codi £72 i Cymorth Cristnogol (yr un swm ag y mae pob person yn y DU yn ei wario ar siocled mewn blwyddyn)! I gael rhestr o syniadau difyr i godi arian a rysetiau cacennau gwych sy'n defnyddio nwyddau masnach-deg anfonwch am ein pecyn rhad SuperCake!fundraising pack.
- darganfod mwy am Raphael Ayapong – darllenwch ei stori ac edrychwch ar luniau ohono ar www.globalgang.org
- gofynnwch i'r disgyblion chwilio am ragor o straeon am blant sydd a'u bywydau wedi eu gwella trwy Masnach Deg. Fe'u gwelir ar wefan Global Gang. Ewch i www.globalgang.org (chwiliwch am 'fair trade' a 'chocolate').
- mae'n Bythefnos Masnach Deg o 23 Chwefror hyd at 8 Mawrth 2009. Ewch i www.fairtradewales.com i gael syniadau ar sut y gall eich ysgol chi godi ymwybyddiaeth o nwyddau Masnach Deg – yn yr ysgol, gartref ac yn eich cymuned leol.
- gwnewch Masnach Deg yn fwy byw yn eich ystafell ddosbarth gyda Papapaa Live! Mae Pa Pa Paa Live! yn darlledu ar y we o ddwy ysgol wledig mewn cymunedau sy'n tyfu coco yn Ghana i ddosbarthiadau ar draws y DG. I ddarganfod mwy ewch i www.papapaa.org/live.
- arwyddwch i fod yn Asiant Dubble ac ymunwch â miloedd o gefnogwyr Masnach Deg ifanc sydd ar genhadaeth i gael chware teg i ffermwyr coco Ghana. Ewch i www.dubble.co.uk i archebu eich pecyn MISSION:POSSIBLE tra bod rhai ar ôl!

[I] http://www.guardian.co.uk/uk/2996/apr/13/foodanddrink

[II] From MSSION:POSSIBLE, Dubble Chocolate

© Cymorth Cristnogol, Ionawr 2009
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525